

Y Grŵp Trawsbleidiol ar Angladdau a Phrofedigaeth

24 Hydref 2018
Ystafell Gynadledda A

Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol

Yn bresennol:

Mark Isherwood AC (Cadeirydd)	Philip Blatchly (NAFD)	David Beamer (Ysgrifennydd)
Darren Millar AC	Kim Bird (About the Funeral)	Lorraine Barrett (Gweinydd)
Janette Bourne (Cruse)	Gordon Swan (Golden Dyneiddiol)	
Jon Levett (NAFD)	Charter)	Ahmed Alsisi (White Rose / Acceptance)
Paul Harding (Marie Curie)	Morgan Harris (NAFD)	

Eitem 1 – Ymddiheuriadau

Janet Finch-Saunders AC	Simon Thomas AC	Neil McEvoy AC
Russell George AC	Paul Davies AC	Carys Moseley (EBCPCW)
Nigel Lymn Rose (NAFD)	Neil Hamilton AC	Jean Letton (BASW)
Martin Birch (Cyngor Sir Caerdydd)	Helen Mary Jones AC	Tony Curtis (Dreams & Wishes)
Gemma O'Driscoll (Cyn-Lywydd, SAIF)	Kate Edwards (NAFD)	James Tovey (Siarter SAIF)
	Wendy Hobbs (Dreams and Wishes)	

Eitem 2: Cymeradwyo Cofnodion

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.

Eitem 3: Ethol Swyddogion

Ail-etholwyd Mark Isherwood AC yn Gadeirydd y Grŵp.

Ail-etholwyd David Beamer yn Ysgrifennydd y Grŵp.

Eitem 4: Diweddariad

Rhannodd yr Ysgrifennydd ohebiaeth a dderbyniwyd gan Andrew Bailey (FCA).

Roedd y Cadeirydd yn aros am ymateb gan y Prif Grwner ynghylch symud cyrff gan grwneriaid.

Ar daliadau angladd y Gronfa Gymdeithasol, cododd Gordon Swan ddatblygiadau diweddar yn yr Alban ynghylch Cymorth Treuliau Angladdau a'r angen am ddiwygio'r drefn yng Nghymru. Cytunwyd i ysgrifennu at Justin Tomlinson i alw am i'r elfen wedi'i chapio gael ei chynyddu yn ôl chwyddiant yn flynyddol.

Eitem 5: Cyflwyniad: Janette Bourne, Gofal mewn Galar Cruse

Cyflwynodd Janette Bourne, Gofal mewn Galar Cruse, gyflwyniad ar Strategaeth Bereaved People First 2019-2024 a'r cynlluniau i drawsnewid y ffordd roedd Cruse yn cefnogi pobl sydd mewn profedigaeth.

Croesawodd Darren Millar AC waith Cruse a'r wybodaeth a ddarperir ar ymdrin â bylchau mewn hyfforddiant. Tynnwyd sylw at ei rolau ar Grwpiau Trawsbleidiol eraill, ac yn arbennig, effaith profedigaeth ar deuluoedd â phersonél milwrol a oedd wedi colli eu bywydau.

Trafodwyd y mater o ddarparu adnoddau ar gyfer gwasanaethau cymorth profedigaeth a chyfeiriodd Janette Bourne y bwlch yn yr adnoddau sydd ar gael. Cynigiodd ddarparu mwy o ddata i'r Grŵp i nodi'r bylchau sy'n bodoli.

Soniodd Ahmed Alsisi am ei waith yn Acceptance a'r galw uchel am wasanaethau cymorth profedigaeth. Tynnodd Philip Blatchly sylw at waith cyfarwyddwyr angladdau a sut maent yn darparu gwybodaeth i'w cleientiaid am elusennau cymorth profedigaeth.

Cododd Mark Isherwood AC yr hyfforddiant a roddwyd i gynghorwyr profedigaeth ar sut i gynorthwyo pobl sydd wedi mynd drwy brofedigaeth ac sydd ag anableddau meddyliol neu gorfforol. Amlinellodd Janette Bourne yr hyfforddiant ychwanegol y mae Cruse yn ei gynnig i wirfoddolwyr i sicrhau y gellir darparu cymorth i bobl waeth beth fo'u hanableddau.

Eitem 6: Cyflwyniad Cod Ymarfer gan y NAFD

Amlinellodd Mark Isherwood AC waith blaenorol y Grŵp a'i ddiddordeb mewn sicrhau y dylai cyfarwyddwyr angladdau gadw at God Ymarfer.

Trafododd Morgan Harris hanes y NAFD a chefnidir ei God Ymarfer. Soniodd am fanylion y broses gwyno a'r amrywiol gamau a gymerwyd wrth i'r cwynion symud ymlaen. Roedd hyn yn cynnwys rôl y Cynllun Cymodi Angladdau.

Cafwyd trafodaeth wedyn ar pam nad oedd cyfarwyddwyr angladdau wedi'u rheoleiddio ar hyn o bryd. Amlinellodd Morgan Harris ddatblygiadau ar reoleiddio yn yr Alban a sut roedd yr NAFD yn aros am argymhellion gan Natalie McKail, Arolygydd Cyfarwyddwyr Angladdau, ar sut mae hi'n gweld y sector yn cael ei reoleiddio yn yr Alban. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan Lywodraeth yr Alban.

Trafododd Kim Bird ei chwmni, y gwahanol fodelau sy'n bodoli ar gyfer safleoedd cymharu prisiau yn y farchnad gwasanaethau angladdau a'r angen am eglurder ar y Cod Ymarfer sy'n bodoli yn y sector. Dywedodd Jon Levett fod yr NAFD yn disgwyl i God Llywodraeth yr Alban gael ei argyhoeddi cyn diweddaru ei God Ymarfer ei hun ac roedd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau eglurder.

Eitem 7: Diwygiadau i Gofrestru Marwolaethau

Trafododd y Grŵp ddiwygiadau arfaethedig ar gyfer cofrestru marwolaeth yng Nghymru a Lloegr, a chyhoeddi ymateb Llywodraeth y DU i'r ymgynghoriad ar gofrestru marwolaeth.

Cytunwyd i ysgrifennu at Vaughan Gething AC i gael eglurder ynghylch safbwynt Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y ffioedd a godir. Byddai'r Grŵp hefyd yn ysgrifennu at yr Arglwydd O'Shaughnessy'r ffaith y cyhoeddir yr ymateb, ac yn gofyn a gaiff y grŵp ei hysbysu o unrhyw ddatblygiadau.

Eitem 8: Cronfa Gymdeithasol / Fforddiadwyedd Angladdau

Trafodwyd Eitem 8 yn y diweddariad ac nid oedd angen trafodaeth bellach.

Eitem 9: Astudiaeth Marchnad Angladdau CMA / Ymgynghoriad Trysorlys EM i Gynlluniau Angladdau Talu Ymlaen Llaw

Cynhaliwyd trafodaeth ar Astudiaeth Marchnad Angladdau CMA ac ymgynghoriad Trysorlys EM i Gynlluniau Angladdau Talu Ymlaen Llaw, a gyhoeddwyd ar 1 Mehefin 2018.

Tynnodd Gordon Swan sylw at gyhoeddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad Astudiaeth Marchnad Angladdau.

Cytunwyd i ysgrifennu at Drysorlys EM yn nodi cefnogaeth y Grŵp i reoleiddio'r sector cynllunio angladdau talu ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod pob darparwr yn cael ei gynnwys yn effeithiol a bod eu cleientiaid yn cael eu diogelu rhag methiant darparwyr y cynllun.

Eitem 5: Unrhyw fater arall

Dim eitemau.

Eitem 8 Dyddiad y cyfarfod nesaf

I'w gytuno ar gyfer y flwyddyn nesaf.